



Cynllun Lleoli Oedolion Canllaw i ddefnyddwyr



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg, gallwn hefyd ddarparu'r ddogfen mewn ieithoedd ac/neu fformatau eraill ar eich cais. Ffoniwch 0800 032 1099 i gael rhagor o fanylion.

Yr hyn sydd yn y canllaw hwn

Fe ddylai'r canllaw hwn ddweud wrthoch chi'r cwbl sydd angen ei wybod am Leoliadau Oedolion a Chynllun Lleoli Oedolion Sir Ddinbych. Mae ynddo hefyd lawer o wybodaeth ddefnyddiol am y ffordd y bydd gofalwyr yn eich cefnogi, sut y byddwn yn sicrhau y byddwch chi'n aros efo gofalwyr sy'n addas i chi, a phwy y gallwch siarad â nhw os bydd yna unrhyw beth yr hoffech ei newid neu rywbeth nad ydych yn hapus ag o yn eich lleoliad.

Os penderfynwch fod amoch eisiau Lleoliad Oedolion, gobeithio y cewch chi amser ardderchog!

Y bobl y gallwch gysylltu â nhw...

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am yr hyn y buoch yn ei ddarllen, neu fe hoffech fwy o wybodaeth am Leoliadau Oedolion, yna cysylltwch â Un Pwynt Mynediad Sir Ddinbych. Medrwch ysgrifennu atynt neu eu cyfarfod yn y manau canlynol:



Un Pwynt Mynediad
Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych
64 Ffordd Brighton
Y Rhyl
LL18 3HN



Rhif Ffôn: 0300 456 1000

E-bost: spoa@denbighshire.gov.uk

Mae yna lawer o wybodaeth hefyd ar wefan Cyngor Sir Ddinbych:
www.sirdinbych.gov.uk

Y geiriau a ddefnyddiwn am Leoliadau Oedolion a'u hystyr

Gofalwyr Lleoli Oedolion

Dyma'r bobl y byddwch yn aros efo nhw neu'n byw efo nhw. Maent wedi eu hyfforddi ac wedi eu dewis i fod yn ofalwyr lleoli oedolion.

Swyddog Lleoli Oedolion

Y person sy'n rhoi gwybodaeth a chynghor i'r gofalwyr ac sy'n sicrhau fod eich lleoliad yn mynd i weithio'n dda i bawb.

Cydlynnydd Cynllun Gofal a Chymorth

Y person sy'n gweithio i'r gwasanaethau cymdeithasol ac sy'n eich cefnogi a'ch helpu i drefnu pethau y bydd amoch eu hangen, fel gwasanaethau dydd a thrafnidiaeth. Gallwch gysylltu â'ch gweithiwr cymdeithasol neu eich rheolwr gofal os byddwch yn poeni am rywbeth ond ddim am siarad â'ch gofalwr.

Cynllun Gofal a Chymorth

Dyma le y byddwn ni'n ysgrifennu llawer o wybodaeth am y ffordd y bydd eich gofalwyr a phobl eraill yn eich helpu yn eich lleoliad oedolyn.

Cytundeb Lleoli

Dyma le y byddwn ni'n ysgrifennu'r holl bethau y mae eich gofalwyr, chi eich hun, eich gweithiwr cymdeithasol neu reolwr gofal a'r gweithwyr cynllun lleoli yn cytuno iddyn nhw fel bod eich lleoliad yn gweithio'n dda.



Eiriolwr

Dyma rywun a all eich helpu i ddweud yr hyn yr hoffech chi ei ddweud, neu a fydd yn siarad neu ysgrifennu ar eich rhan, os dymunwch chi.

Adolygiad Lleoli

Dyma'r cyfarfodydd y byddwn yn eu cynnal efo chi a'ch gofalwyr i sicrhau fod popeth yn iawn. Gallwn benderfynu mewn adolygiad lleoli a oes angen unrhyw newidiadau i'ch cynllun defnyddiwr gwasanaeth neu gytundeb lleoli.

Beth ydi Lleoliad Oedolyn?

Gall lleoliad oedolyn fod yn:



- rywle i fyw
- rhywle i aros am ysbaid fer
- rhywle i fynd am gefnogaeth yn ystod y dydd
- rhywun fydd yn cynnig cefnogaeth i chi i fyw yn eich cartref eich hun

Mewn pob lleoliad oedolyn fe gewch eich helpu a'ch cefnogi gan rywun a elwir yn ofalwr lleoli oedolyn fydd yn rhannu eu cartref â chi ac yn eich cynnwys fel rhan o'u teulu.

Hefyd mae yna lawer o wahanol fathau o ofalwyr lleoli oedolion. Mae rhai o'r gofalwyr lleoli oedolion yn gyplau a rhai yn bobl sengl. Mae gan rai ohonynt blant. Mae rhai yn rhoi help a chefnogaeth i fwy nag un person.

Mae pob gofalwr lleoli oedolion yn rhan o gynllun lleoli oedolion.

Sut y gall Lleoli Oedolion fy helpu i?

Mewn lleoliad oedolion, byddwch yn:



- dewis eich gofalwyr eich hun
- rhannu cartref fydd yn lân ac wedi ei gynnal yn dda
- rhan o'ch cymuned leol
- cael cwmni pobl eraill, ond hefyd bydd gennych eich annibyniaeth eich hun fel oedolyn
- gallu cyfarfod â phobl newydd a gwneud ffrindiau Newydd
- cael yr help angenrheidiol i wneud yr hyn a ddewiswch chi
- cael cefnogaeth i ddysgu sgiliau Newydd
- cael parch gan eich gofalwyr

Beth ydi Cynllun Lleoli Oedolion?

Pwrpas y cynllun ydi dod o hyd i bobl sy'n dymuno bod yn ofalwyr lleoli oedolion. Fe wnawn ni hyn drwy:



- wneud llawer o wiriadau, fel gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i sicrhau eu bod yn saff
- sicrhau eu bod yn bobl sy'n addas i fod yn ofalwyr lleoli oedolion, a bod ganddynt y sgiliau i gefnogi pobl yn iawn, a
- rhoi hyfforddiant i ofalwyr lleoli Oedolion

Fe wnawn ein gorau i'ch paru â gofalwyr y credwn fydd yn iawn i chi. Fe'ch cyflwynwn i ofalwyr a'ch helpu i ddod i'ch adnabod eich gilydd drwy drefnu ymweliadau â'r gofalwyr (yn cynnwys aros dros nos os byddwch yn byw yng nghartref y gofalwr).

Pan fyddwch wedi penderfynu pa ofalwyr sy'n iawn i chi, gyda'n gilydd fe ysgrifennwn gynllun gofal a chymorth a chytundeb lleoli.

Pan fyddwch yn dechrau aros neu fyw gyda'ch gofalwyr fe ddaw Swyddog Lleoli Oedolion sy'n rhan o'r cynllun i ymweld â chi'n rheolaidd i sicrhau fod pob dim yn mynd yn iawn ac i'ch helpu chi a'ch gofalwyr i ddatrys unrhyw broblemau.

Fe sicrhawn fod cyfarfodydd adolygu lleoliad yn cael eu cynnal yn rheolaidd i drafod os bydd amoch chi neu eich gofalwyr eisiau newid rhywbeth ynglŷn â'ch lleoliad.

Wrth bwy y dylwn i ddweud yr hoffwn i Leoliad Oedolyn?



Gallech ddweud wrth eich gweithiwr cymdeithasol os oes gennych un, neu weithiwr allweddol neu eich swyddog adfocatiaeth.

Gallech hefyd ddweud wrth riant neu aelod o'r teulu fel y gallant ddod o hyd i'r person iawn i'ch helpu.

Gaf i ddewis fy Ngofalwyr Lleoli Oedolion?

Fe ddywedwn ni wrthoch chi am ofalwyr y tybiwn ni yr hoffech chi fyw efo nhw. Fe ddywedwn wrthoch chi hefyd:



- ble y maent yn byw
- sut dŷ sydd ganddyn nhw
- faint o bobl sy'n byw yno a'u hoedran
- beth y maent yn hoffi ei wneud ac a oes ganddyn nhw anifail anwes

Os hoffech chi, fe helpwn ni i chi eu cyfarfod i weld beth fyddwch chi i gyd yn ei feddwl. Gallwch ddod â rhywun arall efo chi, os hoffech chi.

Weithiau efallai y bydd arnoch angen cyfarfod amryw o wahanol ofalwyr cyn y gallwn ddod o hyd i'r lleoliad iawn i chi.

Sut y bydd y Gofalwyr Lleoli Oedolion yn gwybod amdanaf i?

Fe wnaiff eich gweithiwr cymdeithasol siarad â chi fel y gallwch benderfynu efo'ch gilydd yr hyn yr hoffech i'ch gofalwyr lleoli oedolion ei wybod amdanoch chi a'r hyn sydd angen iddynt ei wybod er mwyn eich cefnogi'n iawn.

Byddai'n help pe gallech ddweud wrthyn nhw beth yr hoffwch chi ei wneud yn ystod y dydd, yr hyn yr hoffwch chi ei wneud gyda'r nos ac ar benwythnos, a pha bethau y bydd arnoch angen help â nhw bob dydd.

Mae'r wybodaeth a roddir i'ch gofalwyr yn gyfrinachol. Dim ond os bydd angen hynny y caiff ei rannu â neb arall, er mwyn eich helpu neu eich cadw'n ddiogel.

Beth fydd fy Ngofalwyr Lleoli yn fy helpu i'w wneud?

Gall eich gofalwyr lleoli oedolion eich helpu i wneud pob math o bethau, fel:

- gwneud paned o de neu goginio
- dewis beth hoffech chi i'w fwyta
- golchi eich gwallt neu gymryd eich meddyginiaeth
- rheoli eich arian neu fynd allan
- gwneud y pethau yr hoffwch eu gwneud yn ystod y dydd

Bydd eich gofalwyr lleoli oedolion yn gwybod pa bethau y bydd arnoch angen help â nhw a pha bethau yr hoffech ddysgu eu gwneud gan ein bod yn ysgrifennu'r pethau hyn i lawr yn eich cynllun gofal a chymorth.

Fyddda i'n gorfod cadw at lawer o reolau?

Efallai y bydd yna rai rheolau y bydd yn rhaid i bawb sy'n byw yn y tŷ eu cadw, fel:



- peidio smocio yn y tŷ o gwbl
- helpu i glirio ar ôl prydau bwyd
- peidio chwarae miwsig yn uchel – yn enwedig yn hwyr y nos

Os na fyddwch yn cytuno â'u rheolau efallai y penderfynwch nad y rhain yw'r gofalwyr iawn i chi.

Efallai y bydd yna ychydig o reolau eraill y gofynnir i chi gytuno iddyn nhw gan bobl eraill sy'n eich adnabod. Bydd y rhain yn eich helpu i fod yn ddiogel a byddant wedi eu hysgrifennu yn eich cynllun.

Fydd fy ngofalwyr yn cael eu talu?



Bydd y rhan fwyaf o ofalwyr yn cael peth tâl er mwyn rhoi'r help angenrheidiol i chi. Bydd peth o'r arian hwnnw'n dod oddi wrth eich awdurdod lleol fel rheol.

Bydd angen i chi dalu rhan o'ch budd-daliadau neu eich cyflog tuag at gost eich lleoliad er mwyn helpu i dalu am eu help ac am fwyd a phethau eraill y bydd arnoch eu hangen. Os byddwch yn byw yno bydd eich arian yn talu hefyd am gost eich llety.

Fe sicrhawn ni y bydd gennych ddigon o arian yn dal i fod fel y gallwch brynu pethau i chi'ch hun ac i wneud yr hyn a fynnwch chi.

Fyddda i'n gallu gwario fy arian fy hun?



Eich arian chi i'w wario fel y mynnwch yw'r arian sydd ar ôl wedi i chi dalu am eich gofalwyr.

Os byddwch yn ei chael yn anodd rheoli eich arian ar eich pen eich hun gall eich gofalwyr eich helpu.

Beth fydd fy ngofalwyr yn ei sgwennu amdanaf i?



Bydd eich gofalwyr yn cadw dyddiadur. Gallwch helpu yn hyn os hoffech chi. Yn y dyddiadur bydd y gofalwyr yn sgwennu am yr hyn sy'n digwydd – pethau fel:

- apwyntiadau i chi
- pobl sy'n dod i ymweld
- yr amseroedd pan fyddwch chi'n sâl
- unrhyw beth pwysig arall sy'n digwydd

Efallai y bydd angen i'r gofalwyr ysgrifennu gwybodaeth am unrhyw feddyginiaeth sydd gennych chi a phryd y byddwch yn ei gymryd.

Mae'r wybodaeth a ysgrifennir yn gyfrinachol. Bydd eich gofalwyr yn dweud wrthoch chi os bydd angen iddynt rannu'r wybodaeth hon ag unrhyw un arall.

Os bydda i'n byw efo Gofalwr Lleoli Oedolion...



Fydd gen i fy ystafell fy hun?

Alla i ddod â fy mhethau fy hun efo fi?

Bydd eich llofft wedi ei dodrefnu ond fe allwch ddod ag unrhyw beth a fynnwch chi fydd yn ffitio yn eich stafell efo chi. Yn aml bydd pobl yn dod â theledu neu system fiwsig.



Gaf i ddal i wneud y pethau rwy'n hoffi eu gwneud yn ystod y dydd?

Fe geisiwn ddod o hyd i leoliad nad yw'n rhy bell o'r lle'r ydych yn byw yn awr, fel y gallwch ddal i wneud yr un pethau yn ystod y dydd.

Os nad yw hyn yn bosib fe ddywedwn wrthy, ac os hoffech chi fe allwn eich helpu i ddod o hyd i rywbeth newydd i'w wneud yn ystod y dydd.



Allaf i ddal i weld fy ffrindiau?

Mae ffrindiau'n bwysig ac fe wnaiff eich gofalwyr a'r bobl sy'n rhedeg y cynllun eu gorau i'ch helpu i weld eich ffrindiau.



Allaf i ddal i wneud y pethau rwy'n mwynhau eu gwneud gyda'r nos?

Os nad yw eich lleoliad yn rhy bell i ffwrdd fe allwch ddal i fynd allan i wneud yr un pethau gyda'r nos. Os na fydd hyn yn bosib, gan eich bod ymhellach i ffwrdd, fe allwch ofyn i'ch gofalwyr a'r bobl sy'n rhedeg y cynllun i'ch helpu i ddod o hyd i bethau newydd i'w gwneud.



Fyddda i'n gallu ymweld â'm teulu?

Os byddwch yn byw gyda gofalwyr lleoli oedolion gallwch ymweld â'ch teulu pryd bynnag y bydd hynny'n iawn i'r ddau ohonoch chi. Gall eich gofalwyr eich helpu gyda'r trefniadau hyn.



Fydd fy nheulu a'm ffrindiau yn gallu ymweld â mi?

Bydd eich teulu a'ch ffrindiau yn gallu dod i ymweld â chi. Fe wnaiff eich gofalwyr yn siŵr y gallwch eu gweld yn breifat yn eich ystafell eich hun neu ystafell arall yn y tŷ.



Beth os na fyddda i am barhau i aros efo'r Gofalwyr Lleoli Oedolion?

Weithiau bydd pobl yn awyddus i symud ymlaen o'u lleoliad ac mae hyn yn iawn.

Bydd angen i chi ddweud wrth eich gweithiwr cymdeithasol os oes gennych un, eich gofalwr a'ch swyddog lleoli oedolion. Fe wnaiff eich gofalwr neu ffrind da eich helpu os bydd hynny'n anodd i chi.

Fe wnaiff un o'r bobl hyn eich helpu i benderfynu i ble yr hoffech symud ymlaen ac i gynllunio sut y gallwch wneud hynny.

Fe allwn ni geisio dod o hyd i leoliad oedolion newydd i chi, os hoffech chi.

Beth os nad ydwy i'n hapus gyda rhywbeth yn fy lleoliad?

Os oes yna rhywbeth nad ydych yn hapus ag o yn eich lleoliad, dylech ddweud wrth eich gofalwyr os medrwch chi, fel y gallwch ddatrys y broblem efo'ch gilydd.

Os na allwch ddweud wrth eich gofalwr, gallwch ddweud wrth:



- aelod o'ch teulu neu ffrind agos,
- eich gweithiwr cymdeithasol,
- aelod o staff eich canolfan ddydd, neu
- y Swyddog Lleoli Oedolion, neu
- eich swyddog adfocatiaeth

Gall y bobl hyn eich helpu.

Os bydd gennych broblem ddifrifol ynglŷn ag unrhyw beth sy'n ymwneud â'ch lleoliad, efallai y bydd angen i chi gwyno. Os hoffech help i wneud cwyn gallwch ofyn i'ch gweithiwr cymdeithasol am eiriolwr neu rywun i'ch helpu. Gall hynny fod yn aelod o'ch teulu neu ffrind. Gallant eich helpu i gysylltu â'r Swyddog Cwynion i gyflwyno'ch cwyn. Dyma fanylion cyswllt y Swyddog Cwynion:



Y Swyddog Cwynion
Tŷ Russell
Churton Road
Y Rhyl
Sir Ddinbych
LL18 3DP



Rhadffôn: 0800 032 1099



Gallwch gysylltu hefyd â swyddfa leol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW) os byddwch am gwyno am eich lleoliad. Dyma'r lle y mae'r person sy'n archwilio ein gwasanaeth yn gweithio. Cyfeiriad a rhif ffôn eich swyddfa leol yw:

AGGCC Rhanbarth Gogledd Cymru
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ

Ffon: 0300 7900 126